# Cyngor Cymuned Glantwymyn

**Nôs Iau, 31 Mawrth 2016.**

**Presennol:-** Cynghorwyr Gwenfair E Davies, Dafydd Evans, D Gwyn Jones, Gareth W Jones, John Pughe Jones, Deryck Lewis, Gwen Lloyd, William N Owen, Geraint Wigley, Ann Williams, a'r Cynghorydd Sir, Gwilym P Fychan. Hefyd y Clerc, Mr Rab Jones.

**Ymddiheuriadau:-** Cynghorwyr Aled O Griffiths, Paul Hughes, Siôn Ifans, S Gareth Owen, Huw M Williams.

**16.16. Cofnodion cyfarfod 25 Chwefror 2016.**
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod uchod a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**16.17. Materion yn codi o'r cofnodion.**
16.13.3 Cronfa Egni Cymunedol. Cadarnhaodd Cyng Gwen Lloyd mi fydd cyfarfod o'r panel ar 7 Ebrill 2016. Mae Cyng Jane Davies wedi cael ei phenodi i cynrychioli Cyngor Cymuned Corris ar y panel.

**16.18. Cynllunio.**
Dim.

**16.19. Eitemau i'w talu.**
19.1 Hysbys yn y Blewyn Glas Mis Mawrth 2016. Cytyunwyd taliad o £10-00.
19.2 Cyflog y Clerc, Mis Ionawr, Mis Chwefror a Mis Mawrth. Cytunwyd taliad o £750-00.

**16.20. Torri Gwair ym Mynwentydd Eglwysi Darowen a Llanwrin.**
20.1 Esboniodd y Clerc ei fod wedi cael un cais am torri gwair ym mynwentydd Eglwysi Darowen a Llanwrin gan Mr Glenn Ward o Fachynlleth. Cyfanswm o £1,260-00 am pedwar toriad yn y ddau mynwent. Cytunwyd derbyn y cais.

**16.21. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr.**
21.1 Fforwm Cleifion. Eglurodd Cyng Gwenfair Davies ei bod wedi mynychu cyfarfod diweddar o'r Fforwm Cleifion ym Machynlleth lle cafwyd gwybodaeth am y sefyllfa diweddaraf gyda'r Gwasanaeth Deintydd ym Machynlleth. Cafwyd hefyd crynodeb o'r cyfarfodydd cyhoeddus diweddar i thrafod Gofal Oedolion. Ychwanegodd Cyng Gwilym Fychan rhagor o fanylion am cynllun peilot yn Ystradgynlais.

**16.22. Gohebiaeth.**
22.1 E-bost gan Mr Tom Jenkins, Comisiwn Ffiniau i Gymru, ynglyn adolygiad o'r etholaethau seneddol.
22.2 Llythr gan Mr Stephen Phipps, Llywodraeth Cymru, ynlyn Fframwaith Moesegol Llywodraeth Leol. Mae hwn yn cynnwys gorchymyn fod yn anghenrheidiol i Chynghorau Cymuned fabwysiadu cod ymddygiad diwygiedig erbyn 26 Gorffenaf 2016.
22.3 Llythr gan Leighton Andrews AC ynglyn canllawiau statudol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethu'r Dyfodol (Cymru) 2015.
22.4 Llythr gan Isabel Nethell, Yr Aolygaeth Cynllunio, ynglyn a Ddatblygiadau o Arwyddocad Cenedlaethol. Cytunwyd cofrestri am y gwasanaeth hysbysu.
22.5 E-bost gan Jackie Jones, Cyngor Sir Powys, ynglyn a Strategaeth Comisiynnu Newydd i Phobl Hyn (gweler 16.21.1 uchod).
22.6 E-bost gan Melanie Amor, Cyngor Sir Powys, ynglyn cynlluniau sbwriel ac ailgylchu dros Gwyliau y Banc ym Misoedd Mai ac Awst.
22.7 Llythr gan Tower Mint Ltd. yn rhoi cynnig i archebu medalau i ddathlu penblwydd 90 y Frenhines Elizabeth II.

22.8 Llythr gan Mr Neil Jenkins, Swyddfa'r Post, yn rhoi estyniad i'r cyfnod ymgyghori ar y cynllun Gwasanaeth Post Symudol yng Nghemaes a Chwmlline.
22.9 Llythr gan Mr Nic Clarke, Taith dros Fywyd, y rhoi manylion sut i trefnu taith cerdded i codi arian tuag at Sefydliad Aren Cymru.

**16.23. Unrhyw fater arall.**
23.1. Eglurodd Cyng Gwilym Fychan fod y Cyngor Sir ar fin cymeryd adolygiad o'r Gwasanaeth Sbwriel ac Ail Gylchu ar Fore Sadwrn ym Machynlleth. Cytunwyd ysgrifennu llythr i Cyngor Sir Powys yn pwysleisio'r pwysigrwydd o chadw y gwasanaeth presennol.
23.2. Eglurodd Cyng Gwilym Fychan fod y Cyngor Sir hefyd ar fin cymeryd adolygiad o ddyfodol yr iard yn Llanbrynmair sydd ar hyn o bryd yn gwasanethu ardal Dyffryn Dyfi. Mynegodd Cyng John Pughe Jones fod yn hanfodol cadw'r iard yma. Cytunwyd ysgrifennu llythr i'r Cyngor Sir yn pwysleisio'r pwysigrwydd o chadw yr iard yn Llanbrynmair.
23.3 Eglurodd Cyng Deryck Lewis fod yna pryder am y ffordd yn arwain at Cwmeidrol. Mae coeden wedi hanner cwympo ac wedi agor hollt ar hyd ochr y ffordd. Eglurodd y Clerc ei fod wedi ymweld a'r safle gyda Cyng Lewis ac ei fod wedi dod a'r problem i sylw y Cyngor Sir.
23.4 Eglurodd Cyng William Owen fod angen sylw i'r fainc ar y sgwar yn Llanwrin. Cytunodd Cyng Deryck Lewis edrych i fewn i'r sefyllfa.
23.5 Eglurodd Cyng John Pughe Jones fod yna pryder am cyflwr dau o'r coed ym Mynwent Eglwys Darowen. Cytunodd y Clerc edrych i fewn i'r sefyllfa.
23.6 Eglurodd Cyng Ann Williams fod un o'r arwyddion i phentref Cwmlline wedi cwympo. Cytunodd y Clerc gwneud yn siwr fyd y Cyngor Sir yn gwybod am y sefyllfa.
23.7 Eglurodd Cyng Ann Williams fod yna pryderon am y sefyllfa yn Meddygfa Glantwymyn gyda cael ymweliad gyda'r meddygon. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd ysgrifennu llythr i'r Meddygfa yn gofyn am esboniad o'r sefyllfa.
23.8 Eglurodd Cyng Gwyn Jones fod mudiad yng Ngemaes yn edrych am caniatad i rhoi fainc ar y palmant o flaen y capel. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd fod y Cyngor Cymuned ddim mewn sefyllfa i rhoi caiatad am y fainc.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Iau, 28 Ebrill 2016.**